**Eitem: 17**

**Teitl:** Adroddiad ar ddogfennau wedi'u selio

| | |
|---|---|
| **Angen gweithredu / Action required** | I'w gadarnhau gan y Bwrdd |
| **Amseru / Timing** | Mai 2025 |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r adroddiad hwn ar ddefnyddio sêl gyffredin Llais ers cymeradwyo'r weithdrefn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024 a'i hymgorffori yn Rheolau Sefydlog Llais. |
| **Risg / Risk** | Os na fydd y Bwrdd yn cadarnhau'r adroddiad hwn, bydd hyn yn golygu y bydd Llais yn gweithredu neu'n gwneud penderfyniadau nad ydynt yn bodloni ei ofynion statudol gofynnol a'i Reolau Sefydlog ei hun. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i gadarnhau'r adroddiad hwn. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'n blaenoriaeth i dyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad dibynadwy sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwyr pwysig ar gyfer gweithrediad a chyflawniad llwyddiannus ar gyfer pob agwedd ar waith Llais ac felly, cyflawni'r holl amcanion allweddol. |
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol i ddulliau ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant Llais. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: |

| | |
|---|---|
| | **Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Digwyddodd yr adroddiad cyntaf ar ddefnyddio'r sêl gyffredin yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024. Dim ond pan fydd y sêl gyffredin wedi'i defnyddio y mae angen adroddiadau. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 8 Mai 2025 |

**Cefndir / Background**

Cyflwynir yr adroddiad hwn at ddibenion cydymffurfio a sicrwydd er mwyn sicrhau bod Llais yn cyflawni gofynion ei Reolau Sefydlog mewn perthynas â dogfennau y cytunwyd arnynt o dan y sêl gyffredin.

Defnyddir sêl gyffredin Llais i selio dogfennau cyfreithiol megis trosglwyddiadau tir, cytundebau prydles a chontractau eraill, lle bo angen.

Yn unol â'n Rheolau Sefydlog, rhaid i'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr neu gynrychiolydd enwebedig selio dogfennau ar ran Llais.

Seliwyd un ddogfen ar 28 Mawrth 2025. Darperir y manylion isod:

| Dyddiad | Manylion y Ddogfen: | Llofnodwyr: |
|---|---|---|
| 28 Mawrth 2025 | Cytundeb prydles gyda Gweinidogion Cymru ar gyfer safle ar y 4ydd llawr, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd. | Grace Quantock, Dirprwy Gadeirydd<br>Alyson Thomas, Prif Weithredwr<br>Tyst: Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |

**Manylion / Detail**

Gofynnir i'r Bwrdd gadarnhau'r defnydd o'r sêl gyffredin.